WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

# Adroddiad Gwella Blynyddol

# Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr

Ionawr 2011



## Annual Improvement Report by the Auditor General for Wales

Ysgrifennir yr adroddiad hwn gan Swyddfa Archwilio Cymru ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru. (Ceir eglurhad o swyddogaeth yr Archwilydd Cyffredinol yn Atodiad 1). Adroddiad newydd ydyw y mae'n ofynnol iddo ei gyhoeddi o ran pa mor dda y mae cynghorau Cymru yn gwella'u gwasanaethau. Gyda chymorth arolygwyr eraill fel Estyn (ar gyfer addysg) ac Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru, rydym wedi llunio darlun o'r hyn y mae'r cyngor yn ceisio ei gyflawni; sut mae'n gwneud hynny; a'r hyn y mae angen i'r Awdurdod ei wneud i wella'r ffordd y mae'n gwella ei wasanaethau.

Mae'r Adroddiad Gwella Blynyddol hwn yn cyfleu'r darlun hwnnw a phob blwyddyn byddwn yn llunio adroddiad i roi gwybod i chi am y cynnydd y mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr (y Cyngor) wedi'i wneud. Nid ydym wedi ymdrin â phob gwasanaeth y mae'r Cyngor yn ei ddarparu. Rydym wedi canolbwyntio ar nifer fach o bethau, yn arbennig y pethau hynny y mae'r Cyngor wedi dweud yw ei flaenoriaethau o ran gwella.

Rydym am gael eich barn ar y gwasanaethau y mae'r Cyngor yn eu darparu yn eich ardal chi a chewch gyfle i gyflwyno sylwadau yn y dyfodol. Yn y cyfamser hoffem wybod a yw'r adroddiad hwn yn rhoi'r wybodaeth sydd ei hangen arnoch ac a yw'n hawdd ei ddeall. Gallwch fynegi eich barn drwy anfon e-bost at info@wao.gov.uk neu drwy ysgrifennu atom yn 24 Heol y Gadeirlan, Caerdydd CF11 9LJ.

Cynhwysai tîm astudio Swyddfa Archwilio Cymru a'm cynorthwyodd i lunio'r adroddiad hwn, Rod Alcott a Jeremy Evans, o dan gyfarwyddyd Jane Holownia.

Paratowyd yr adroddiad hwn gan Swyddfa Archwilio Cymru ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru yn unol â gofynion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009. Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru yn asesu cydymffurfiaeth awdurdodau gwella Cymru (cynghorau sir, cynghorau bwrdeistref sirol, awdurdodau parciau cenedlaethol ac awdurdodau tân ac achub) â gofynion gwella Rhan 1 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.

Archwilydd Cyffredinol Cymru a'i staff gyda'i gilydd yw Swyddfa Archwilio Cymru. Am ragor o wybodaeth am Swyddfa Archwilio Cymru, ysgrifennwch at Archwilydd Cyffredinol Cymru, 24 Heol y Gadeirlan, Caerdydd, CF11 9LJ.
Rhif ffôn: 02920 320500, e-bost: info@wao.gov.uk, neu gweler y wefan www.wao.gov.uk

©Archwilydd Cyffredinol Cymru, 2011

Cewch ailddefnyddio'r cyhoeddiad hwn (heb gynnwys y logos) yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng. Rhaid i chi ei ailddefnyddio'n gywir ac nid mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint Archwilydd Cyffredinol Cymru a rhaid rhoi teitl y cyhoeddiad hwn. Lle nodwyd deunydd hawlfraint unrhyw drydydd parti bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw cyn ei ailddefnyddio.

# Cynnwys


Pa fath o ardal yw Pen-y-bont ar Ogwr? 04

A yw Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn cael ei reoli'n dda? 05

A yw Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn gwybod beth sydd angen iddo ei wneud i wella? 08

A yw Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn gwasanaethu pobl yn dda? 11

A yw Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn cefnogi pobl mewn angen? 12

A yw Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn helpu pobl i ddatblygu? 15

A yw Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn helpu i greu lle diogel, ffyniannus a difyr i fyw ynddo? 17

Beth ddylai'r Cyngor ei wneud? 20


## Atodiadau


Atodiad 1 - Gwybodaeth am Archwilydd Cyffredinol Cymru a'r adroddiad hwn 21

Atodiad 2 - Gwybodaeth ddefnyddiol am Ben-y-bont ar Ogwr a Chyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr 23

Atodiad 3 - Asesiad Corfforaethol yr Archwilydd Cyffredinol 25

Atodiad 4 - Llythyr Archwilio Blynyddol yr Archwilydd Penodedig at Aelodau Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr 26

Atodiad 5 - Amcanion gwella Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr 28

Atodiad 6 - Cyfeiriadau 29

# Pa fath o ardal yw Pen-y-bont ar Ogwr?

1 Mae'r wybodaeth ym mharagraffau 2 i 5 yn nodi cyd-destun gweithredu Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr (y Cyngor.) Mae'n cynnwys gwybodaeth am faterion sydd y tu hwnt i gwmpas y Cyngor ac felly nid yw'n rhoi barn ar berfformiad y Cyngor.

2 Mae ardal ddaearyddol Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn cwmpasu 246 o gilometrau sgwâr, a dyma'r chweched awdurdod lleol lleiaf o ran maint yng Nghymru. Mae'r sir yn cysylltu'r ardaloedd arfordirol yn y de â chymoedd Llynfi, Ogwr a Garw yn y gogledd. Pen-y-bont ar Ogwr, Maesteg a Phorthcawl yw'r prif drefi.

3 Mae'r sectorau gweithgynhyrchu a manwerthu yn bwysig i Ben-y-bont ar Ogwr ac mae yna gysylltiadau ffordd a rheilffordd da yn yr ardal. 66.2 y cant oedd y gyfradd cyflogaeth yn 2009 sy'n fymryn yn is na chyfartaledd Cymru. Cyflogir ychydig o dan 43,000 o bobl yn y diwydiannau gwasanaeth (gweinyddiaeth gyhoeddus, addysg, iechyd, dosbarthu, gwestai a bwytai), sy'n cynrychioli dros hanner y bobl a gyflogir yn y sir. Cyflogir tair gwaith yn fwy o bobl ym maes gweithgynhyrchu o gymharu ag adeiladu, er bod y ganran uchaf o fusnesau sydd wedi cofrestru at ddibenion TAW ym Mhen-y-bont ar Ogwr yn 2008 yn perthyn i'r sector adeiladu (16 y cant). Y sector manwerthu oedd yn ail (11 y cant).

4 Tua 134,200 oedd poblogaeth y fwrdeistref yn 2009, sy'n golygu mai Pen-y-bont ar Ogwr yw'r nawfed cyngor mwyaf poblog yng Nghymru. Disgwylir y bydd y boblogaeth yn tyfu 12,000 rhwng 2006 a 2021, sef cynnydd o 9.1 y cant.

5 16.6 y cant oedd y ganran o bobl oedd yn siarad Cymraeg ym Mhen-y-bont ar Ogwr yn 2008: un o'r cyfraddau isaf ymysg awdurdodau lleol Cymru.

6 Ceir rhagor o wybodaeth am y Cyngor a'r ardal yn Atodiad 2.

ardal ddaearyddol
246 km$^2$
/////////////

poblogaeth
134,200
/////////////

siaradwyr cymraeg
16.6%
/////////////

# A yw Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn cael ei reoli'n dda?

7 Fis Mehefin eleni, lluniodd yr Archwilydd Cyffredinol Adroddiad Asesiad Corfforaethol Rhagarweiniol sy'n cynnwys manylion am drefniadaeth a rheolaeth y Cyngor. Cyflwynir ein canfyddiadau yn Atodiad 3. Os ydych am ddarllen yr adroddiad cyfan, ewch i wefan y Cyngor neu wefan Swyddfa Archwilio Cymru yn www.wao.gov.uk.

8 Casgliad cyffredinol yr adroddiad hwnnw oedd bod y Cyngor yn gwella mewn nifer o feysydd. Mae ganddo gryfderau penodol o ran sut mae arweinwyr gwleidyddol ac arweinwyr rheoli wedi cydweithio i fynd i'r afael â rhai problemau hirdymor, sut mae'n cynllunio ei wasanaethau, sut mae'n gweithio gyda sefydliadau eraill, rhai o'i ddulliau rheoli pobl a sut mae'n rheoli ei arian.

9 Er bod cynnydd yn cael ei wneud mae yna heriau i'w hwynebu o hyd. Bydd gofyn i'r Cyngor wneud penderfyniadau anodd ac amserol ar y defnydd o adnoddau er mwyn ymateb i'r toriadau gwariant arfaethedig. Er na ddylid diystyru'r heriau hyn, mae hanes o reoli ariannol doeth ynghyd â'r gwelliannau sydd eisoes wedi'u gwneud yn golygu bod y Cyngor mewn gwell sefyllfa i ymateb i'r heriau a sicrhau gwelliant yn y dyfodol.

10 Pan luniwyd ein hadroddiad ym mis Gorffennaf 2010 nodwyd nifer o feysydd sydd angen eu gwella, ac mae'r tabl ar dudalen 20 yn eu crynhoi. Mae'r Cyngor wedi ymateb yn gadarnhaol i'n cynigion ac ers mis Gorffennaf bu cynnydd sylweddol:

- Mae'r Cyngor wedi adolygu ei drefniadau cynllunio busnes er mwyn sicrhau bod cynlluniau busnes a'r Strategaeth Ariannol Tymor Canolig yn cyd-fynd â'i gilydd..
- Mae'r Cyngor yn paratoi cyllideb tair blynedd. Yn y dyfodol, mae'n rhaid i gynlluniau busnes adlewyrchu sut y bydd darpariaeth gwasanaethau yn cael ei chynnal a sut y bydd gwariant yn cael ei leihau.
- Mae'r Cyngor yn ystyried manteision meddalwedd rheoli asedau ac mae adolygiadau o asedau yn cael eu cynnal yn ddaearyddol i helpu i nodi asedau sydd i'w gwaredu a sicrhau defnydd effeithlon o'r rhai sy'n weddill.
- Mae'r Cyngor wedi datblygu dulliau mesur canlyniadau ar gyfer y Strategaeth Gymunedol ac mae'n bwriadu adolygu ei ddangosyddion perfformiad presennol, gan ddefnyddio'r dull atebolrwydd sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau.
- Mae gwaith yn mynd rhagddo i sicrhau bod y broses o arfarnu perfformiad corfforaethol yn cael ei gweithredu ledled y sefydliad.
- Bydd cynllun gweithlu yn cael ei ddatblygu erbyn Mawrth 2011.
- Mae Cylch Gorchwyl y Pwyllgorau Craffu ac Archwilio wedi'u hadolygu i sicrhau bod swyddogaethau a chyfrifoldebau yn cael eu deall. Mae rheoli risg wrth wraidd gwaith y Pwyllgor Archwilio ac mae'r holl risgiau cyfundrefnol strategol sy'n cynnwys elfen 'perfformiad' yn cael eu hadolygu o fewn rhaglenni gwaith y pum pwyllgor craffu.

11 Mae'r archwilydd a benodwyd gan yr Archwilydd Cyffredinol wedi cadarnhau yn ddiweddar bod datganiadau ariannol y Cyngor yn adlewyrchiad cywir a theg o'r trafodion ariannol a bod gan y Cyngor drefniadau effeithiol ar waith i sicrhau gwerth am arian. Mae'r Llythyr Archwilio Blynyddol, sy'n darparu gwybodaeth am gyfrifon, y defnydd o adnoddau a Chynllun Gwella'r Cyngor wedi'i gynnwys yn yr adroddiad hwn yn Atodiad 4.

12 Ers i ni ymgymryd â gwaith maes ar gyfer yr Asesiad Corfforaethol, mae'r pwysau ariannol ar y sector cyhoeddus wedi cynyddu, gyda phob gwasanaeth cyhoeddus fwy neu lai'n wynebu toriadau ariannol. Cyllid refeniw yw'r arian y mae cynghorau yn ei wario ar gynnal a rheoli eu gwasanaethau. Bydd y Cyngor yn wynebu gostyngiad dros dro o tua £2.2 miliwn (1.4 y cant) yn y cyllid refeniw y mae'n ei dderbyn gan Lywodraeth y Cynulliad ar gyfer 2011-12. Mae hyn yn codi i £3.4 miliwn ar ôl ystyried y broses o drosglwyddo grantiau penodol i grant cymorth refeniw cyffredinol. Ar ôl cynnwys chwyddiant hefyd, mae hynny'n golygu y bydd gostyngiad mewn termau real o tua £7.6 miliwn (3.3 y cant) o gymharu â 2010-11.

13 Gosododd y Cyngor gyllideb refeniw net o £223.3 miliwn yn 2009-10 ac roedd y gwariant net ar gyfer y flwyddyn yn £224.8 miliwn, diffyg o £1.5 miliwn. £232.5 miliwn yw'r gyllideb ar gyfer 2010-11.

14 Cyllid cyfalaf yw'r arian y mae cynghorau yn ei wario ar seilwaith, fel adeiladau a chyfarpar newydd. Mae'r cyllid cyfalaf sydd ar gael i'r Cyngor yn mynd i ostwng yn sylweddol. Oherwydd bod cynghorau yn cyflwyno ceisiadau am gyllid cyfalaf, nid oes modd gwybod i sicrwydd faint y bydd pob Cyngor yn ei dderbyn. Bydd cyfanswm y cyfalaf sydd ar gael i gynghorau ledled Cymru yn gostwng 14 y cant yn 2011-12 (gostyngiad mewn termau real o 18.5 y cant).

15 Bydd y cymeradwyaethau gwariant Cyllid Cyfalaf Cyffredinol sydd ar gael i'r Cyngor yn 2011-12 yn gostwng i £7.7 miliwn o gymharu â £9.7 miliwn yn 2010-11, gostyngiad o 21 y cant. Nid yw hyn yn cynnwys gwariant a ariennir gan grantiau cyfalaf penodol o dan reolaeth Llywodraeth y Cynulliad. Nid oes unrhyw ffigurau swyddogol ar gael ar gyfer gwariant cyfalaf llywodraeth leol ar ôl 2011-12, ond mae'n debygol o gyd-fynd â gostyngiad cyffredinol yng ngwariant cyfalaf Llywodraeth y Cynulliad, a fydd yn cael ei dorri tua 34 y cant (tua 40 y cant mewn termau real) rhwng 2010-11 a 2013-14.

16 Mae'r Cyngor yn parhau i ddatblygu a gwella ei gynlluniau ariannol tymor canolig. Dros yr haf ac ar ddechrau'r hydref bu'r Cyngor yn gwneud rhagor o waith i asesu ei ofynion tebygol o ran adnoddau refeniw yn y dyfodol.

17 Mae gan y Cyngor hanes o reolaeth ariannol ddoeth, a ddylai olygu ei fod mewn gwell sefyllfa i ymateb i heriau ariannol y dyfodol. Yn ei Gynllun Corfforaethol, nododd y Cyngor iddo wario £8.8 miliwn yn llai hyd at fis Mawrth 2009 diolch i arbedion neu ddulliau gwaith mwy effeithlon, a rhagwelir y bydd yn llwyddo i sicrhau arbedion gwerth £1.4 miliwn pellach erbyn mis Mawrth 2010, sy'n bedwar y cant o'i gyllideb o £223 miliwn. Mae hyn yn rhoi'r Cyngor mewn sefyllfa gadarn wrth symud ymlaen i gyfnod o newid sylweddol a thoriadau ariannol ac mae ganddo hanes da o sicrhau bod ei wasanaethau yn cael eu darparu ar sail yr adnoddau sydd ar gael iddo.

18 Fodd bynnag, o ystyried y pwysau presennol ar arian cyhoeddus, mae'r Cyngor yn ymwybodol o'r posibilrwydd y bydd angen iddo dorri yn ôl ar yr hyn y mae'n ei wneud a sicrhau ei fod yn defnyddio ei adnoddau mor effeithiol â phosibl. Erbyn Mehefin 2010 felly, roedd wedi mabwysiadu proses bwysig i greu Cynllun Ariannol Tymor Canolig (CATC), sy'n gysylltiedig â'r strategaeth Effeithlonrwydd ac Arloesi. Bydd hyn yn disgrifio sut mae'r Cyngor yn mynd i wneud yr arbedion sy'n angenrheidiol.

19 Er mwyn llunio'r CATC, aeth y Cyngor ati i nodi'r lefel bosibl o arbedion yn y gyllideb y bydd y Cyngor yn gorfod eu gwneud dros gyfnod y CATC o dair blynedd. Mae hyn yn rhagdybio y bydd gostyngiad o dri y cant yn y grant cymorth refeniw

a chynnydd yn y dreth cyngor, ac mae'n gyfystyr â'r gostyngiadau posibl gwerth £22.4 miliwn sydd eu hangen tros dair blynedd y cynllun.

20 Oherwydd ansicrwydd ynghylch yr arian a ddaw o goffrau Llywodraeth y Cynulliad ac er mwyn llunio'r cynllun tair blynedd a symud tuag at weithredu'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig, gofynnwyd i gyfarwyddiaethau gyflwyno arbedion posibl yn eu cyllidebau a fyddai'n gyfystyr â chwech y cant ar gyfer 2011-12 a phump y cant ar gyfer y ddwy flynedd ganlynol, yn seiliedig ar gyllidebau sylfaenol net ar gyfer 2010. Yn ogystal, mae swyddogion wedi cael gwybod y bydd cynigion i leihau cyllidebau yn gorfod bod yn ddigon sylweddol i ymdopi ag unrhyw bwysau o ran twf neu wariant, sydd hefyd yn cynnwys unrhyw ofynion twf dangosol a nodwyd yn y broses o bennu cyllideb 2010-11.

21 Mae'r gwaith o baratoi'r CATC yn mynd rhagddo o dan dri phennawd cyffredinol:

- Cyfeiriad Strategol: Yn ceisio amddiffyn gwasanaethau rheng flaen yn erbyn effaith gostyngiadau sylweddol mewn cyllidebau drwy newidiadau strategol i'r modd y darperir gwasanaethau. Byddai hyn yn cynnwys datblygu partneriaethau strategol, cydweithredu ac integreiddio gwasanaethau ymhellach.
- Rhaglen Effeithlonrwydd ac Arloesi: Bydd Rhaglen Effeithlonrwydd ac Arloesi Pen-y-bont ar Ogwr yn canolbwyntio ar sut mae gwasanaethau yn gallu cael eu darparu trwy ddefnyddio dulliau mwy creadigol ac effeithlon.
- Arbedion eraill: Mae hyn yn cynnwys nifer o feysydd fel gwella'r defnydd o'r gweithle, mabwysiadu prosesau 'meddwl darbodus', a nodweddion symleiddio.

22 Mae'r Cyngor felly'n parhau i wneud cynnydd tuag at weithredu ei CATC, er nid yw'n gyflawn eto. Mae cyfarwyddiaethau wedi cyflwyno cynigion drafft i fodloni'r gofynion o ran arbedion. Mae'r cynigion drafft yn gysylltiedig â'r amcanion strategol fesul cyfarwyddiaeth, ac maent hefyd yn cynnwys asesiad effaith ac amcangyfrif o arbedion dros dair blynedd y cynllun. Mae swyddogion yn parhau i adolygu'r cynigion o safbwynt arbedion i sicrhau eu bod yn realistig, yn ddigonol ac yn ymarferol. Cyflwynwyd cyllideb drafft i'r Cabinet ar 30 Tachwedd, a chynhelir adolygiad pellach cyn i'r gyllideb derfynol gael ei chyflwyno i'r Cabinet ar 25 Ionawr 2011.

# A yw Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn gwybod beth sydd angen iddo ei wneud i wella?

23 Mae Llywodraeth y Cynulliad yn ei gwneud hi'n ofynnol i bob cyngor gyhoeddi ei gynlluniau ar gyfer gwella'r hyn a wna a sut y mae'n ei wneud. Mae'n rhaid i bob cyngor gyhoeddi rhestr o'u prif feysydd gwella â blaenoriaeth bob blwyddyn - eu hamcanion gwella. Ar gyfer 2010-2013 mae'r Cyngor wedi penderfynu canolbwyntio ar 11 amcan, sy'n cael eu nodi isod:

- creu cymunedau diogel a chynhwysol;
- datblygu datrysiadau tai cynaliadwy ar gyfer pobl ddigartref neu'r rheiny sydd arnynt angen tai fforddiadwy, a gwella amodau tai'r sector preifat;
- rhoi cymorth i oedolion agored i niwed allu byw'n annibynnol yn eu cymunedau, gan hybu dewis, grymuso, urddas a pharch;
- darparu gwasanaethau sy'n diwallu gwahanol anghenion plant a phobl ifanc sy'n byw yn y fwrdeistref;
- datblygu cymunedau dysgu sy'n helpu plant a phobl ifanc i gyflawni gwell deilliannau;
- sicrhau mwy o gynhwysiant addysgol, fel bod yr holl bobl ifanc, gan gynnwys rhai difreintiedig ac agored i niwed a'r rheiny a chanddynt anghenion dysgu ychwanegol, yn elwa o ymyrraeth gynharach a chymorth lleol mwy effeithiol;
- gwella lles corfforol ac emosiynol trwy hybu ffyrdd egnïol o fyw, cyfranogiad a dysgu;
- rhoi cymorth i'n cymunedau difreintiedig trwy hybu twf economaidd a chynaliadwyedd;
- parhau i hyrwyddo Pen-y-bont ar Ogwr a'i mannau gwyrdd fel lle gwych i fyw ynddo ac i'w fwynhau;
- gwella'r ffordd rydym yn gweithio i sicrhau defnydd effeithiol ac effeithlon o'n hasedau ariannol, technolegol, ffisegol a dynol; a
- sicrhau bod yr Awdurdod yn cyflawni ei ddyletswyddau moesol a statudol o ran deddfwriaeth cydraddoldeb a hawliau dynol.

24 Mae'n rhaid i'r Cyngor gyhoeddi ei amcanion gwella cyn gynted ag sy'n ymarferol bosibl ar ôl dechrau mis Ebrill bob blwyddyn. Cyhoeddodd y Cyngor ei amcanion gwella yn ei Gynllun Corfforaethol ym mis Awst 2010 a'u rhoi ar ei wefan, er nad oedd hi'n hawdd dod o hyd iddynt. Mae'r Cyngor yn cydnabod bod angen eu gwneud yn fwy hygyrch. Er gwaethaf dymuniad dealladwy'r Cyngor i gadw ei gostau argraffu mor isel â phosibl, mae'n mynd ati i argraffu crynodeb o'r Cynllun Corfforaethol mewn cylchlythyr/bwletin. Mae hwn ar gael yn eang mewn llyfrgelloedd ac adeiladau cyhoeddus eraill.

25 Mae'r Cyngor wedi cydymffurfio â'r gofynion i lunio amcanion gwella yn y flwyddyn bontio hon ac mae'n bwriadu cyhoeddi ei amcanion gwella ddechrau'r flwyddyn nesaf. Er mwyn gwneud popeth posibl i gyflawni'r amcanion, mae'n rhaid i'r Cyngor gytuno arnynt erbyn dechrau pob blwyddyn, pan gymeradwyir y gyllideb ar gyfer y flwyddyn os yn bosibl. Gorau po fwyaf y gall y Cyngor gydgysylltu ei gynlluniau a'i brosesau er mwyn gwasanaethu'r cyhoedd yn well.

26 Mae Cynllun Corfforaethol 2010-2013 y Cyngor yn ddogfen sylweddol a manwl. Mae'r Cyngor yn pennu'r amcanion gwella yn glir, gan eu cysylltu â'r themâu corfforaethol a sefydlwyd yn y Strategaeth Gymunedol. Mae'r Cyngor yn darparu gwybodaeth gyd-destunol ar ffurf proffiliau bach ar gyfer gwahanol feysydd sy'n pwysleisio'r angen am welliant neu newid mewn meysydd penodol. Mae'r Cynllun Corfforaethol yn cynnwys cynllun ariannol manwl ac asesiad risg corfforaethol. Mae'r cynllun yn cynnwys amrywiaeth o lwyddiannau a dangosyddion perfformiad diweddar sy'n pennu targedau perfformiad ar gyfer y blynyddoedd nesaf. Nid yw'r cynllun yn cynnwys cerrig milltir ar

gyfer gweithgareddau ac ni fydd y dangosyddion perfformiad yn unig yn ddigon i ddangos cynnydd tuag at gyflawni canlyniadau'r cynllun.

27 Wrth bennu amcanion gwella mae'n rhaid i'r Cyngor fod yn glir ynglŷn â'r hyn y mae'n ceisio ei gyflawni, ac mae'n rhaid i ddinasyddion lleol wybod pa wahaniaeth y bydd cyflawni'r amcanion hyn yn ei wneud i'w bywydau. Mae'n rhaid i'r Cyngor fod â dulliau o fesur ei berfformiad sy'n helpu pawb i ddeall a yw'n gwella a sut mae'n gwella.

28 Mae rhai o'r amcanion yn eang iawn ac mae'r rhestr yn ei chyfanrwydd yn cynnwys y rhan fwyaf o waith y Cyngor. Nid yw'r dull hwn yn helpu dinasyddion i ddeall beth yw blaenoriaethau'r Cyngor. Tra bod y prif amcanion yn eang iawn, maent yn seiliedig ar gamau gweithredu sy'n cyd-fynd â chynlluniau busnes. Mae'r camau hyn yn galluogi dinasyddion i sicrhau bod y Cyngor yn atebol ac yn eu helpu i ddeall yn well beth mae'r Cyngor yn ceisio ei gyflawni. Mae bwriad rhai amcanion yn glir i'r cyhoedd, fel datblygu datrysiadau tai cynaliadwy ar gyfer pobl ddigartref neu'r rhai sydd arnynt angen tai fforddiadwy, a gwella amodau tai'r sector preifat. Mae eraill yn llai clir i'r cyhoedd, fel creu cymunedau diogel a chynhwysol. Mae rhai gwasanaethau yn gorgyffwrdd hefyd, yn enwedig gwasanaethau i blant.

29 Mae gennym hefyd rai pryderon ynglŷn ag amcan y Cyngor o gyflawni ei ddyletswyddau o dan ddeddfwriaeth cydraddoldeb a hawliau dynol. Derbyniwn fod y Cyngor yn awyddus i barhau i wneud cynnydd gyda'r amcan hwn, ond credwn y gallai'r Cyngor ei gynnwys yn ei amcanion eraill.

30 Mae ein gwaith yn dangos y bydd y Cyngor yn gallu mesur yr hyn y mae'n ei wneud i gyflawni'r amcanion gwella mewn sawl maes. Fel sy'n wir am y rhan fwyaf o gynghorau, mae angen i'r Cyngor herio gwerth ei gyfraniad at newid bywydau pobl pan fo ei gyfraniad yn rhan o waith partneriaeth.

31 Dangosodd y gweithdai a gynhaliwyd gennym gydag aelodau a swyddogion y Cyngor ym mis Medi 2010 fod gan y Cyngor ddealltwriaeth gliriach o lawer yn fewnol o'r hyn y mae am ei gyflawni ar gyfer defnyddwyr gwasanaethau na'r hyn y mae'r disgrifiadau yn y Cynllun Corfforaethol yn ei awgrymu. Dangosodd y gweithdai hefyd fod angen i'r Cyngor allu dangos i'r cyhoedd sut y mae'n perfformio ar hyn o bryd er mwyn profi ei fod yn gwella yn y dyfodol. Dyma'r tro cyntaf y bu angen i gynghorau lunio amcanion gwella ac mae'r Cyngor yn dysgu o'i ymgais gyntaf a bydd yn adolygu ei amcanion i'w gwneud yn gliriach i ddinasyddion.

32 Aethom ati hefyd i ystyried i ba raddau mae'r Cyngor yn cynnwys pobl leol a phobl sy'n gweithio gydag ef a throsto ef wrth benderfynu ei flaenoriaethau. Daeth yn amlwg i ni fod yr amcanion gwella a nodwyd yn y Cynllun Corfforaethol yn adlewyrchu amcanion y Strategaeth Gymunedol a gyhoeddwyd ym mis Ebrill 2009 ac a ddatblygwyd drwy ymgynghori â'r cyhoedd, partneriaethau a phartneriaid. Yn y dyfodol mae'n rhaid i'r Cyngor sicrhau ei fod yn ymgysylltu'n uniongyrchol â dinasyddion wrth bennu amcanion gwella.

33 Mae'r Cyngor yn gweithio gyda'i bartneriaid a dinasyddion i ganfod ffyrdd o ymgysylltu â dinasyddion a datblygu proffil cymunedol. Mae'n bosibl bod sefydliadau eraill, fel y rhai yn y sector gwirfoddol, eisoes yn gwneud pethau tebyg i'r hyn y mae'r Cyngor yn bwriadu ei wneud, felly mae'n bwysig iawn eu cynnwys hefyd.

34 Fel rhan o'n gwaith aethom ati i ystyried i ba raddau mae'r Cyngor wedi cynllunio ei ymdrechion i wneud yn well ac a allai fforddio talu am y gwelliannau hyn. Daethom i'r casgliad fod ei gynlluniau gwella yn drylwyr iawn. Fodd bynnag, mae'r Cyngor yn wynebu toriadau yn ei wariant a all ei gwneud hi'n anodd iddo gyflawni'r amrywiaeth eang iawn o amcanion gwella y mae wedi gosod iddo ei hun. Tra bod llawer o'r hyn y mae am ei wneud fel rhan o'i amcanion gwella yn ceisio hyrwyddo effeithlonrwydd, mae'r Cyngor yn cydnabod bod angen ystyried ei amcanion eto i sicrhau eu bod yn fforddiadwy wrth benderfynu ar wariant ar gyfer cyllideb 2011-12.

35 Mae gwybodaeth dda yn hanfodol i bob cyngor, ynghyd â'r gallu i'w defnyddio'n effeithiol er mwyn darparu gwasanaethau da a'u gwella ymhellach. Daethom i'r casgliad fod systemau'r Cyngor o gasglu a defnyddio gwybodaeth wedi'u datblygu'n dda yn gyffredinol, ond gallai wneud gwelliannau pellach drwy gynnal gwiriadau ac adolygiadau annibynnol. Tra bod rhai cyfarwyddiaethau yn adolygu'r wybodaeth, nid yw eraill yn gwneud hynny ac nid oes unrhyw broses adolygu ffurfiol ar waith ar draws y Cyngor. Y cam nesaf i'r Cyngor fydd dewis mesurau clir i ddangos a yw'n cyflawni'r amcanion gwella ac yn darparu'r gwasanaethau y mae'r cyhoedd yn eu dymuno.

36 Gofynnwyd i'r Cyngor gyhoeddi Adroddiad Blynyddol ôl-weithredol erbyn 31 Hydref 2010 sy'n rhoi darlun cytbwys o berfformiad y Cyngor rhwng Ebrill 2009 a diwedd Mawrth 2010. Roedd y Cyngor yn bodloni'r gofyniad statudol hwn, gan gyflwyno darlun cytbwys o'i berfformiad yn 2009-10. Yn y dyfodol, dylai'r Cyngor ystyried darparu esboniad manylach ar ei berfformiad sy'n cael ei fesur gan y dangosyddion perfformiad statudol. Mae hyn yn debygol o gynnwys esboniad pellach ar sut mae'r Cyngor yn bwriadu gwella'r meysydd lle mae'n tangyflawni.

# A yw Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn gwasanaethu pobl yn dda?

37 Rydym yn gobeithio defnyddio Asesiad Gwella'r Archwilydd Cyffredinol i greu darlun graddol o ba mor dda y mae'r Cyngor yn gwasanaethu pobl leol. Er mwyn gwneud hynny, byddwn bob blwyddyn yn archwilio gwasanaethau'r Cyngor a rhai o'i amcanion ar gyfer gwelliant mewn perthynas â thair agwedd bwysig ar fywyd ym Mwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr. Credwn fod yr agweddau hyn, gyda'i gilydd, yn cynnwys y rhan fwyaf o'r prif wasanaethau y mae cynghorau yn eu darparu i'w dinasyddion. Dyma'r agweddau:

- helpu i gefnogi pobl mewn angen;
- helpu pobl i ddatblygu; a
- helpu i greu lle diogel, ffyniannus a difyr i fyw ynddo.

38 Fel rhan o asesiad eleni rydym wedi ystyried sut mae'r Cyngor yn datblygu ei amcanion ym mhob un o'r meysydd hyn. Yr amcanion rydym wedi'u dewis yw:

- rhoi cymorth i oedolion agored i niwed allu byw'n annibynnol yn eu cymunedau, gan hybu dewis, grymuso, urddas a pharch (cefnogi pobl mewn angen);
- darparu gwasanaethau sy'n diwallu gwahanol anghenion plant a phobl ifanc sy'n byw yn y fwrdeistref (helpu pobl i ddatblygu); a
- gwella lles corfforol ac emosiynol trwy hybu ffyrdd egnïol o fyw, cyfranogiad a dysgu (lle diogel, ffyniannus a difyr).

39 Dewiswyd yr amcanion hyn oherwydd eu bod yn cwmpasu meysydd allweddol cyfrifoldebau'r Cyngor. Mae'n haws dangos y ddau amcan cyntaf na'r trydydd gan ei bod yn anodd iawn mesur lles emosiynol. Fodd bynnag, ni ddylai'r ffaith ei bod yn anodd mesur lles emosiynol atal y Cyngor rhag dewis yr amcan hwn fel blaenoriaeth. Mae'n bwysig bod y Cyngor yn gallu mesur sut mae ei gamau gweithredu yn effeithio'n uniongyrchol ar gyflawni'r amcanion ac yn deall rôl asiantaethau eraill. Yn gyffredinol, os yw'r Cyngor wedi dewis blaenoriaethu agweddau penodol, dylai allu mesur eu heffaith ar bobl leol.

40 Byddwn yn ystyried amcanion gwella eraill y mae'r Cyngor yn gosod iddo ei hun yn ein hadroddiad y flwyddyn nesaf.

41 Mae Bwrdd yr Iaith Gymraeg (Bwrdd yr Iaith) yn gweithio gydag awdurdodau lleol i'w helpu i ddatblygu eu cynlluniau Iaith Gymraeg statudol sy'n amlinellu sut maent yn darparu gwasanaethau i'r cyhoedd trwy gyfrwng y Gymraeg. Yr awdurdodau sy'n darparu'r gwasanaethau sy'n bennaf cyfrifol am eu hystod a'u safon, ac maent yn gweithio yn unol â fframwaith a chanllawiau statudol Bwrdd yr Iaith. Disgwylir i bob awdurdod lleol gyflwyno Adroddiad Monitro Blynyddol i Fwrdd yr Iaith sy'n egluro sut mae'r cynllun wedi cael ei weithredu. Mae hyn yn galluogi Bwrdd yr Iaith i gynnig cyngor ar sut gall cyngor wella ei drefniadau lleol. Mae Bwrdd yr Iaith hefyd yn cynnal ei adolygiadau ei hun er mwyn asesu darpariaeth gwasanaethau Cymraeg a hyrwyddo gwelliant.

42 Cafodd y Cyngor ei ganmol gan Fwrdd yr Iaith am ei gynnydd sylweddol wrth brif ffrydio'r iaith Gymraeg drwy fentrau fel cynnwys yr iaith fel elfen o'r asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb. Disgwylir y bydd hyn yn helpu i nodi meysydd i'w gwella ac yn llywio'r broses cynllunio corfforaethol. Nododd Bwrdd yr Iaith fod cynnydd yn cael ei wneud o ran cynyddu gwasanaethau Cymraeg i bobl ifanc, ond bod diffyg ymrwymiad cadarn yn rhwystro cynllunio hirdymor. Mae'r Cyngor wedi methu cyrraedd targedau mewn perthynas â mabwysiadu a gweithredu Strategaeth Sgiliau Iaith, hysbysebu swyddi a chaffael. Nododd Bwrdd yr Iaith nad yw gwefan y Cyngor na'i hysbysiadau statudol a gyhoeddir yn y cyfryngau lleol yn cydymffurfio'n llawn â'r Cynllun Iaith Gymraeg. Disgwylir i'r Cyngor fynd ati yn awr i roi cynllun gwella ar waith i fynd i'r afael â'r materion hyn.

# A yw Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn cefnogi pobl mewn angen?

43 Mae'r wybodaeth ym mharagraffau 44 a 45 yn nodi cyd-destun gweithredu'r Cyngor. Mae'n cynnwys gwybodaeth am faterion sydd y tu hwnt i gwmpas y Cyngor ac felly nid yw'n rhoi barn ar berfformiad y Cyngor.

44 Mae disgwyliad oes yn y fwrdeistref yn is na chyfartaledd Cymru ond mae'n cynyddu. 80.2 o flynyddoedd oedd disgwyliad oes menywod ym Mhen-y-bont ar Ogwr ar gyfer 2006-2008, o gymharu â chyfartaledd Cymru o 81.4. 76.0 o flynyddoedd oedd disgwyliad oes dynion ar gyfer 2006-2008, o gymharu â chyfartaledd Cymru o 77.0. Wrth i ddisgwyliad oes gynyddu, bydd galw ychwanegol am wasanaethau'r Cyngor ar gyfer yr henoed, a bydd angen i'r Cyngor gynllunio ar gyfer y galw a'i reoli.

45 Roedd lefelau beichiogrwydd ymysg pobl ifanc yn eu harddegau y nawfed uchaf yng Nghymru yn 2007 gyda 45.2 o bob 1,000 o ferched rhwng 15 a 17 oed yn beichiogi, o gymharu â chyfradd gyfartalog Cymru, sef 44.9. Yn 2008 cyfradd y plant a oedd yn byw mewn cartrefi di-waith ym Mhen-y-bont ar Ogwr oedd y nawfed uchaf ymysg awdurdodau lleol Cymru. Roedd lefel hysbys digartrefedd ym Mhen-y-bont ar Ogwr y trydydd uchaf o blith holl gynghorau Cymru yn 2008-09.

46 Rôl Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) yw cynnal asesiadau a gwneud penderfyniadau proffesiynol ynglŷn â gofal cymdeithasol, blynyddoedd cynnar a gwasanaethau cymdeithasol, gan hyrwyddo gwelliant ymysg y darparwyr gwasanaethau. Mae'n gweithio ar ran Gweinidogion Cymru, ond mae nifer o fesurau diogelu ar waith i sicrhau ei hannibyniaeth. O dan ddeddfwriaeth newydd, mae yna fframwaith newydd ar waith i arolygu, gwerthuso ac adolygu gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol.

47 Mae'n ofynnol i Gyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol lunio adroddiad hunanasesu blynyddol ynglŷn â pha mor dda y mae gwasanaethau yn cael eu darparu. Bydd AGGCC yn mynd ati wedyn i adolygu a dadansoddi'r dystiolaeth sy'n sail i'r adroddiad, gan gynnwys tystiolaeth rheoleiddwyr ac arolygwyr eraill. Bydd y dadansoddiad hwn yn arwain at gynllun arolygu ac adolygu unigol ar gyfer pob cyngor. Bydd dadansoddiad AGGCC a'r cynllun arolygu ac adolygu yn cael eu cyhoeddi bob blwyddyn mewn llythyr.

48 Blwyddyn lawn gyntaf y fframwaith newydd yw 2009-10 a'r bwriad yw sefydlu llinell sylfaen yn seiliedig ar berfformiad cyfredol. Mae negeseuon allweddol y llythyr a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2010 yn cael eu crynhoi isod.

49 Mae gan y Cyngor nifer o gryfderau ym maes gwasanaethau oedolion gan gynnwys y defnydd o fodel asesu risg i helpu i flaenoriaethu achosion, a nifer fach o bobl sy'n gorfod aros yn yr ysbyty tra bod gofal yn cael ei drosglwyddo. Bu gwelliant o safbwynt nifer y bobl sy'n derbyn cymorth i fyw'n annibynnol yn y gymuned ac mae cyfarpar wedi cael ei ddarparu yn fwy prydlon. Mae gweithdrefnau amddiffyn oedolion wedi'u sefydlu'n dda gyda rhai enghreifftiau o ymarfer da, er bod angen i'r Cyngor wella rhai agweddau ar ymarfer ymhellach. Mae'r Cyngor yn parhau i ddatblygu gofal canolraddol a gwasanaethau eraill mewn partneriaeth ag eraill, ac mae canlyniadau llwyddiannus yn dechrau deillio o'r gwaith hwn. Fodd bynnag, gellid cwblhau asesiadau a gwaith sicrhau ansawdd yn fwy prydlon.

50 Mae systemau sgrinio cychwynnol y gwasanaethau plant yn gadarn, ac mae'r Cyngor yn gwella'n gyson o safbwynt prydlondeb penderfynu ar atgyfeiriadau a nifer yr asesiadau cychwynnol dynodedig. Mae adolygiadau statudol yn cael eu cynnal yn gyson ac yn brydlon. Mae'r Cyngor yn cydgysylltu gwasanaethau'n dda ar gyfer plant dan bump oed ag anableddau ac mae'n darparu gwasanaethau cymorth i deuluoedd mewn ffordd strategol ac integredig. Mae perfformiad y gwasanaeth mabwysiadu yn dda, felly hefyd y trefniadau ar gyfer plant sy'n derbyn gofal y tu allan i'r system plant sy'n derbyn gofal a gwaith partneriaeth trwy'r Bwrdd Lleol Diogelu Plant. Mae modd gwella prydlondeb asesiadau cychwynnol ac asesiadau craidd, cynadleddau achos cychwynnol, adolygiadau amddiffyn plant ac ymweliadau statudol plant sy'n derbyn gofal. Mae angen cryfhau ansawdd asesiadau craidd, a dim ond tystiolaeth gyfyngedig sydd ar gael i ddangos bod adolygiadau o blant mewn angen yn cael eu cynnal a bod safbwyntiau defnyddwyr gwasanaethau ar gynllunio gofal yn cael eu casglu. Mae'r Cyngor wedi methu recriwtio digon o gynhalwyr maeth, gan arwain at ddefnyddio trefniadau drutach; mae hyn wedi effeithio ar y gallu i fodloni'r arweiniad *Tuag at Fywyd Sefydlog a Dyfodol Gwell*. Mae modd gwella rhai agweddau ar gymorth i bobl sy'n gadael gofal.

51 Mae'r gwaith o reoli absenoldeb salwch yn gwella. Mae amcanion y gwasanaeth yn cyd-fynd â nodau ehangach y Cyngor ac maent yn cael eu cefnogi gan brif weithredwr brwd, Aelodau Cabinet gwybodus a phwyllgorau craffu ymroddedig. Mae'n rhaid i'r gwasanaeth gyfathrebu'n well er mwyn cefnogi newid wrth ddarparu gwasanaethau, darparu gwybodaeth ariannol a chryfhau prosesau cynllunio'r gweithlu. Erbyn hyn mae'r Cyngor yn gweithio gyda phartneriaid i weithredu cynllun gweddnewid gwasanaethau i bobl hŷn.

## A yw Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn gwella ei gefnogaeth fel bod oedolion sy'n agored i niwed yn gallu byw'n annibynnol yn eu cymunedau?

52 Mae nifer y bobl hŷn yn cynyddu yn gyffredinol ac mae'r Cyngor yn rhagweld y bydd yna gynnydd sylweddol yn ardal Pen-y-bont ar Ogwr. Nid y cynnydd o ran niferoedd yn unig fydd yn cynyddu'r galw am wasanaethau; mae disgwyliadau dinasyddion yn cynyddu ac mae dinasyddion yn fwyfwy ymwybodol o'u hawliau.

53 Yn draddodiadol, mae'r Cyngor wedi darparu gwasanaeth gofal preswyl helaeth ar gyfer pobl hŷn yn hytrach nag ystyried dulliau o hyrwyddo a chefnogi byw'n annibynnol. Mae hyn yn ddrud ac mae'n gallu arwain at orddibyniaeth, gyda rhai pobl yn derbyn gofal preswyl er y gallent fyw'n annibynnol gyda'r cymorth priodol. Mae'r Cyngor wedi cydnabod bod angen iddo newid ei agwedd ac mae wedi datblygu amrywiaeth o wasanaethau i hyrwyddo byw'n annibynnol, gan gau un o'i gartrefi preswyl er mwyn ailddatblygu'r safle a darparu cynllun tai gwarchod ychwanegol.

54 Yn y gorffennol mae perfformiad Pen-y-bont ar Ogwr wedi bod yn is na chyfartaledd Cymru o safbwynt cefnogi pobl dros 65 oed i aros yn eu cartrefi eu hunain, ond mae'r sefyllfa wedi newid wrth i'r Cyngor ddiwygio ei wasanaethau amrywiol. Mae ffigurau'r Cyngor ar gyfer 2009-10 yn dangos bod cyfradd y bobl dros 65 oed sy'n derbyn gofal preswyl yn fwy na chyfartaledd Cymru o hyd, ond bod cyfradd y bobl dros 65 sy'n cael cymorth i fyw yn eu cartrefi wedi gwella ac mae bellach yn well na chyfartaledd Cymru. Mae darpariaeth gwasanaethau ar gyfer cynhalwyr yn is na

chyfartaledd Cymru. Er mwyn mynd i'r afael â hyn, mae'r Cyngor yn casglu barn defnyddwyr gwasanaethau a chynhalwyr i lywio gwelliannau pellach.

55 Mae'n rhaid hefyd ystyried pobl eraill ar wahân i bobl hŷn yn unig. Mae'n rhaid i'r Cyngor ystyried sut y bydd yn diwallu anghenion yr ystod lawn o oedolion sy'n agored i niwed, er enghraifft pobl ifanc sydd ag anghenion gofal cymhleth, cost uchel sy'n dod yn oedolion; oedolion sydd ag anawsterau dysgu, problemau iechyd meddwl neu anableddau corfforol. Er mwyn darparu'r gwasanaethau priodol gydag arian cyfyngedig, bydd rhaid i'r Cyngor barhau i weithio'n agos gydag amrywiaeth o bartneriaid gan gynnwys y sector iechyd, sefydliadau gwirfoddol a landlordiaid cymdeithasol.

56 Mae helpu oedolion sy'n agored i niwed i fyw yn y gymuned yn amcan gwella uchelgeisiol. Teimlwn ei fod yn amcan pwysig o ystyried bod y galw am wasanaethau yn mynd i gynyddu yn y dyfodol. Erbyn i ni gyhoeddi'r adroddiad hwn y flwyddyn nesaf byddwn yn gallu eich hysbysu am berfformiad y Cyngor.

# A yw Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn helpu pobl i ddatblygu?

57 Mae Estyn, arolygydd gwasanaethau addysg yng Nghymru, yn ystyried i ba raddau y mae cynghorau yn helpu plant a phobl ifanc i ddatblygu gwybodaeth a sgiliau. Mae'n arolygu ysgolion, colegau addysg bellach a sefydliadau hyfforddi ac yn dyfarnu pa mor dda y mae cynghorau yn cefnogi'r darparwyr addysg hyn.  Mae Estyn yn defnyddio timau rhanbarthol i ddadansoddi gwybodaeth am berfformiad ac i ymweld ag ysgolion. Mae hefyd yn cyfarfod yn rheolaidd â chyfarwyddwyr addysg er mwyn ffurfio barn am rôl y Cyngor ac am berfformiad addysg yn yr ardal.

58 Mae Estyn wedi dweud wrthym fod perfformiad yng Nghyfnod Allweddol 4 (Blwyddyn 11) yn is na chyfartaledd Cymru ond ei fod wedi gwella'n raddol yn ystod y blynyddoedd diwethaf; fodd bynnag, llwyddodd y Cyngor i gyrraedd neu ragori ar bob un o dri disgwyliad meincnod Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer perfformiad Cyfnod Allweddol 3 a 4 yn 2007, 2008 a 2009. Fodd bynnag, roedd perfformiad yng Nghyfnod Allweddol 1 (Blwyddyn 2) yn is na chyfartaledd Cymru am y tro cyntaf yn 2009. Cafwyd gwelliant yn 2010 ond mae ychydig yn is na chyfartaledd Cymru o hyd. Dirywiodd perfformiad yng Nghyfnod Allweddol 2 (Blwyddyn 6) yn 2010 tra bod perfformiad ledled Cymru yn parhau i wella'n raddol. Mae perfformiad yn is na chyfartaledd Cymru. Cafwyd gwelliant mewn perfformiad yng Nghyfnod Allweddol 3 (Blwyddyn 9) yn 2010, ond roedd yn arafach na Chymru gyfan ac mae bellach yn sylweddol is na chyfartaledd Cymru.

59 Er bod canran yr oedolion o oedran gweithio yn y fwrdeistref sydd heb unrhyw gymwysterau wedi disgyn yn raddol ers 2001, mae'n parhau i fod yn uwch na chyfartaledd Cymru. Disgynnodd canran y bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant yn 2009 ond ar raddfa arafach na chyfartaledd Cymru, a chanran Pen-y-bont ar Ogwr yw'r drydedd waethaf yng Nghymru bellach; mae angen gwella hyn. Mae canran y disgyblion sy'n aros mewn addysg amser llawn ar ôl 16 oed yn uwch na chyfartaledd Cymru, ond cafwyd gwelliant arafach nag yng ngweddill Cymru.

## A yw'r Cyngor yn darparu gwasanaethau sy'n diwallu anghenion gwahanol plant a phobl ifanc sy'n byw yn y fwrdeistref?

60 Cafwyd ymyrraeth hirdymor (2005-2009) gan Lywodraeth y Cynulliad i fynd i'r afael â diffygion mewn gwasanaethau plant. Mae camau gweithredu'r Cyngor o ganlyniad i'r ymyrraeth wedi arwain at welliannau i wasanaethau plant, ac mae'r Cyngor yn awyddus i barhau â'r gwelliannau hyn.

61 Mae yna ffactorau eraill sydd wedi cyfrannu at benderfyniad y Cyngor i ddewis yr amcan hwn, er enghraifft mae lefelau amddifadedd yn uwch na'r cyfartaledd, mae nifer y bobl ifanc sy'n methu gwireddu eu potensial llawn yn yr ysgol yn uwch na'r cyfartaledd, ac mae nifer y plant mewn gofal yn uwch na'r cyfartaledd. Mae cyfleusterau sydd eisoes yn bodoli yn y fwrdeistref, fel Ysgol Arbennig Heronsbridge, hefyd wedi cyfrannu at nifer defnyddwyr gwasanaethau uwch na'r cyfartaledd mewn meysydd angen penodol. Mae teuluoedd yn symud i'r ardal er mwyn gallu cael mynediad i'r cyfleuster hwn ac mae llawer yn aros ar ôl i'w plant adael yr ysgol ond yn parhau i fod angen cymorth helaeth.

62 Mae gan y Cyngor hanes o gydweithio'n dda gyda'r sector iechyd, er enghraifft cefnogi plant ifanc trwy'r cynllun Dechrau'n Deg. Mae angen iddo barhau i ddatblygu'r partneriaethau hyn a llenwi'r bylchau mewn darpariaeth gwasanaethau yn haenau 2 a 3 yn ogystal â chynnwys mwy o asiantaethau er mwyn darparu amrywiaeth ehangach o wasanaethau a helpu i leihau costau. Mae yna gyfle yn hyn o beth i'r bwrdd gwasanaethau lleol hyrwyddo mwy o waith amlasiantaeth.

63 Mae'r Cyngor yn awyddus i gyflawni chwe chanlyniad allweddol, sef bod plant a phobl ifanc (rhwng 0 a 25 oed) yn gallu:

- Dysgu a chyflawni
- Cyfranogi a mwynhau
- Rhoi a derbyn parch
- Bod yn iach
- Bod yn ddiogel
- Bod yn hyderus ac yn hunanddibynnol

64 Nid oes disgwyl i'r amcan gwella hwn gynyddu costau, ond nid yw graddfa toriadau i gyllideb y Cyngor yn hysbys eto. Mae'n debygol o olygu y bydd rhaid gohirio neu roi'r gorau i rai camau gweithredu. Mae'r Cyngor yn awyddus i wella ansawdd ei wasanaethau ac mae'n gobeithio y bydd newid ei ddulliau gweithio yn ei wneud yn fwy effeithlon. Ond mae hefyd yn poeni am effaith y toriadau gwariant.

65 Ar hyn o bryd mae'r Cyngor yn gweithio i ddeall ei sefyllfa bresennol er mwyn gallu mesur hyd a lled gwelliannau yn y dyfodol. Er bod ganddo lawer o ddata ar berfformiad, mae'n rhaid iddo sicrhau fod unrhyw fesurau a ddefnyddir yn werthfawr ac ystyrlon ac yn caniatáu iddo gymharu ei berfformiad ag awdurdodau eraill. Yn gyffredinol, teimlwn y dylai'r Cyngor fod mewn sefyllfa i fesur gwelliant a dangos buddiannau'r hyn y mae wedi'i wneud ar gyfer plant a phobl ifanc.

66 Mae'r amcan eang hwn yn cynnwys amrywiaeth eang o fentrau ac yn gorgyffwrdd ag amcanion eraill. Mae'n bosibl y bydd angen i'r Cyngor leihau dyblygu o ran y pethau y mae am eu gwella a chreu amcan â ffocws cliriach. Erbyn i ni gyhoeddi'r adroddiad hwn y flwyddyn nesaf byddwn yn gallu eich hysbysu am berfformiad y Cyngor.

# A yw Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn helpu i greu lle diogel, ffyniannus a difyr i fyw ynddo?

67 66 Mae'r wybodaeth ym mharagraffau 68 i 70 yn nodi cyd-destun gweithredu'r Cyngor . Mae'n cynnwys gwybodaeth am faterion sydd y tu hwnt i gwmpas y Cyngor ac felly nid yw'n rhoi barn ar berfformiad y Cyngor.

68 Mae cyfradd troseddau Pen-y-bont ar Ogwr 10 y cant yn is na chyfartaledd Cymru. Mae wedi disgyn yn raddol a chan 30 y cant dros y saith mlynedd diwethaf. 72.6 fesul 1,000 o'r boblogaeth yw cyfradd troseddau Pen-y-bont ar Ogwr, a difrod troseddol (32 y cant) a throseddau yn erbyn cerbydau (19 y cant) yw cyfradd uchaf y troseddau hyn. Mae'r Cyngor yn cefnogi'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol a'r camau gweithredu lleol i leihau troseddu.

69 Yr enillion wythnosol cyfartalog ym Mhen-y-bont ar Ogwr yn 2009 oedd £532, sef y chweched uchaf o'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru. Rhwng 1999 a 2009 roedd enillion ym Mhen-y-bont ar Ogwr yn uwch na chyfartaledd Cymru gyda'r bwlch yn cynyddu mymryn dros y cyfnod hwn.

70 Yn 2005, newidiodd y gyfradd cyflogaeth o fod yn uwch na chyfartaledd Cymru i fod yn is na hi, ac mae wedi aros felly ers hynny. Roedd cyfradd cyflogaeth Pen-y-bont ar Ogwr yn 70.2 y cant yn 2008, sef yr uchaf ond deg o'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru. Ym mis Gorffennaf 2010, roedd 3.7 y cant neu 3,100 o drigolion o oedran gweithio yn datgan eu bod yn ddi-waith trwy hawlio Lwfans Ceisio Gwaith a chredydau Yswiriant Gwladol. 3.6 y cant oedd cyfartaledd Cymru.

71 Mae'r Cyngor wedi gweithio mewn partneriaeth ag amrywiaeth o sefydliadau i helpu pobl a busnesau yn y fwrdeistref trwy helpu i greu cyfleoedd gwaith, datblygu sgiliau a sicrhau buddsoddiad mewn atebion hirdymor cynaliadwy. Mae'r Cyngor hefyd wedi ennill grantiau i fusnesau ac unigolion lleol gyda gwerth cyfanredol o dros £0.6 miliwn. Mae'r grantiau wedi arwain at fuddsoddiad pellach gwerth tua £1.2 miliwn gan y sector preifat.

72 Mae'r cynlluniau i ddarparu cymorth ariannol i hyrwyddo buddsoddi mewn busnesau wedi creu 214 o swyddi ac wedi diogelu 476. Mae cyfanswm o 132 o fentrau wedi derbyn cymorth ac mae 37 o fentrau newydd wedi'u creu.

73 Fel sy'n wir am lawer o gynghorau eraill, nid yw'r Cyngor wedi cyrraedd targedau ailgylchu/compostio Llywodraeth y Cynulliad yn y gorffennol. Fodd bynnag, ym mis Mehefin 2010 cyflwynodd y Cyngor wasanaethau a threfniadau casglu newydd mewn ymgais i gynyddu lefelau ailgylchu; cafwyd canlyniadau arwyddocaol yn sgil hynny. Mae'r Cyngor wedi dweud wrthym fod y gyfradd ailgylchu/ailddefnyddio/compostio wedi cynyddu ac mae costau wedi lleihau. Mae'r Cyngor yn hyderus y bydd yn cyrraedd y targed ailgylchu nesaf erbyn 2013; byddwn yn parhau i fonitro gwelliant ac yn cynnwys ein canfyddiadau yn ein hadroddiad y flwyddyn nesaf.

74 Yn ogystal â rheoli ailgylchu mae'n rhaid i'r Cyngor anfon llai o wastraff i safleoedd tirlenwi. Yn hyn o beth, mae Pen-y-bont ar Ogwr yn un o'r cynghorau sy'n perfformio orau yng Nghymru. Mae'r Cyngor yn trosi 26 y cant o'i wastraff i ynni, naill ai'n uniongyrchol yn y Ganolfan Adennill Deunydd ac Ynni neu drwy gynhyrchu tanwydd yn deillio o sbwriel sy'n cael ei ddefnyddio i wneud sment. Mae'r arfer hwn yn cael ei ystyried yn llai cynaliadwy na dewisiadau eraill. Mae cynlluniau yn cael eu hystyried ar gyfer gwasanaethau casglu eraill yn y dyfodol gan gynnwys casglu gwastraff gwyrdd o erddi, casglu gwastraff byd masnach a rhagor o welliannau i safleoedd amwynderau gwastraff o gartrefi; gall y rhain wella perfformiad ymhellach.

## A yw'r Cyngor yn gwella lles corfforol ac emosiynol trwy hybu ffyrdd egnïol o fyw, cyfranogiad a dysgu

75 Mae'r amcan hwn yn eang iawn eto ac rydym wedi canolbwyntio ar hybu ffyrdd egnïol o fyw a chyfranogiad, a'u cyfraniad at ddymuniad y Cyngor i sicrhau bod ei ddinasyddion yn iach ac yn hapus, yn byw bywydau diogel, sicr a sefydlog ac yn cael cyfle i gyfranogi.

76 Mae'r rhan hon o'r amcan yn mynd i'r afael â rhai materion iechyd a lles penodol ledled y fwrdeistref sirol ac yn ategu amcanion eraill. Mae hefyd yn cyfrannu at angen y Cyngor i wneud y defnydd gorau o'r arian y mae'n ei wario – mae pobl iach yn arbed arian i'r gwasanaethau cyhoeddus. Nodir nifer o lwyddiannau:

- ymrwymodd 3,536 yn fwy o oedolion i ddefnyddio cyfleusterau hamdden yn rheolaidd trwy ymaelodi yn ystod 2009-10;
- roedd nifer y staff a gyflogwyd yn unol â chanllawiau neu safonau cenedlaethol i ddarparu rhaglenni ymyrraeth gweithgarwch corfforol yn rhagori ar y targed;
- llwyddiant y gwasanaeth ar y cyd i wella canlyniadau adsefydlu ar gyfer pobl â chlefyd coronaidd y galon neu glefyd rhwystrol cronig yr ysgyfaint, sy'n un o'r goreuon yng Nghymru; a'r
- trefniadau i alluogi pobl sydd ag anabledd i ddefnyddio gwasanaethau hamdden y Cyngor.

77 Mae llawer o wybodaeth ar gael i hysbysu'r Cyngor am ei berfformiad mewn perthynas â'r amcan hwn. Mae canran yr oedolion sy'n cymryd rhan yn rheolaidd mewn chwaraeon a gweithgareddau hamdden egnïol ym Mhen-y-bont ar Ogwr wedi bod yn is na chyfartaledd Cymru ers 2002-03. Mae data arolwg Cyngor Chwaraeon Cymru yn dangos bod cyfranogiad cyffredinol mewn gweithgarwch corfforol yn is na chyfartaledd Cymru. Mae cynllun y Cyngor i atgyfeirio cleifion i wneud ymarfer corff a ddatblygwyd mewn partneriaeth â meddygon teulu lleol wedi'i nodi gan Lywodraeth y Cynulliad fel enghraifft o arfer da.

78 Mae canran yr oedolion gordew ar gyfer 2007 a 2008 a chanran yr ysmygwyr yn debyg iawn i gyfartaledd Cymru ac yn dilyn tuedd Cymru, sef cynnydd bach yng nghanran yr oedolion gordew a gostyngiad bach yng nghanran yr oedolion sy'n ysmygu. Roedd yr amcangyfrif o unigolion a atgyfeiriwyd i gael triniaeth am alcohol ym Mhen-y-bont ar Ogwr yn is na chyfartaledd Cymru yn 2008-09.

79 Mae'r Cyngor yn cydnabod nad yw mor effeithiol yn yr agwedd hon ar ei waith ag y gallai fod a bod angen iddo gynnwys mwy o bartneriaid i rannu'r gwaith. Mae anghenion dinasyddion yn newid ac mae'n rhaid i'r Cyngor ymateb i hynny. Mae pobl hŷn yn awyddus i gadw'n heini a bydd angen i'r Cyngor weithio gyda grwpiau cymunedol sydd wrthi'n gweithio yn y maes hwn. Mae pobl anabl yn awyddus i gymryd rhan hefyd a bydd angen i'r Cyngor weithio gyda grwpiau gwirfoddol i'w helpu i gyfranogi.

80 Mae’n anochel y bydd costau yn ffactor perthnasol a bydd rhaid i’r Cyngor hyrwyddo dewisiadau cost isel a di-dâl fel cerdded a beicio gan y bydd toriadau yn ei gwneud hi’n anodd iawn ehangu, neu hyd yn oed cynnal, darpariaeth hamdden dros y blynyddoedd nesaf.

81 Bydd yn haws dangos llwyddiant yr amcan o safbwynt gwella lles corfforol na gwella lles emosiynol. Mae’r Cyngor yn defnyddio nifer o fesurau i asesu lles corfforol fel genedigaethau iach a phwysau geni. Mae’n anoddach o lawer mesur lles emosiynol oherwydd bod ffactorau fel hunanganfyddiad yn elfen bwysig. Mae’r Cyngor yn ystyried dulliau posibl o ddangos gwelliannau mewn lles emosiynol fel arolwg hunanganfyddiad.

82 Mae’r ffaith fod dysgu yn rhan o’r amcan hwn yn ei wneud yn un eang iawn ac mae’n anodd iawn dangos bod lles emosiynol wedi gwella. Mae’r Cyngor yn cydnabod yr anhawster hwn ac mae’n ystyried dulliau o ddarparu gwybodaeth ystyrlon. Erbyn i ni gyhoeddi’r adroddiad hwn y flwyddyn nesaf byddwn yn gallu eich hysbysu am berfformiad y Cyngor.

# Beth ddylai'r Cyngor ei wneud?

83 O ystyried yr amrywiaeth eang o wasanaethau a ddarperir a'r heriau sy'n wynebu'r Cyngor, byddai'n anarferol pe na fyddem yn dod o hyd i bethau sydd angen eu gwella. Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn gallu:

- argymell i Weinidogion Llywodraeth y Cynulliad y dylent ymyrryd mewn rhyw ffordd;
- cynnal arolygiad arbennig a chyhoeddi'r adroddiad gydag argymhellion manwl;
- gwneud argymhellion ffurfiol ar gyfer gwella - os gwneir argymhelliad ffurfiol, mae'n rhaid i'r Cyngor ymateb i'r argymhelliad hwnnw yn gyhoeddus o fewn 30 diwrnod;
- gwneud cynigion ar gyfer gwella – os ydym yn gwneud cynigion i'r Cyngor, byddem yn disgwyl iddynt fynd i'r afael â nhw a byddwn yn dilyn yr hyn sy'n digwydd.

84 Yn dilyn ein gwaith, nid yw'r Archwilydd Cyffredinol yn gwneud unrhyw argymhellion ffurfiol ond dylai'r Cyngor ystyried ein cynigion canlynol i'w helpu i wella.

### Cynigion a wnaed yn ein gwaith cynharach

- dylai'r Cyngor gwblhau ei drefniadau cynllunio busnes dros y misoedd i ddod yn seiliedig ar Strategaeth Ariannol Tymor Canolig;
- er mwyn dileu anghysondebau rhwng gwybodaeth am eiddo a data ariannol, dylai'r Cyngor weithredu system storio data asedau sefydlog newydd;
- dylai'r Cyngor ddatblygu mesurau allbwn ar gyfer gweithio mewn partneriaeth;
- dylai'r Cyngor sicrhau y caiff y broses arfarnu perfformiad staff ei defnyddio'n gyson drwy'r Cyngor fel ffordd o ymgorffori prosesau rheoli perfformiad mewn prosesau rheoli bob dydd;
- mae angen i'r Cyngor ddatblygu ei ddull gweithredu o ran cynllunio'r gweithlu; a
- dylai'r Cyngor adolygu'r rhaglen Archwiliad Mewnol a blaenraglenni gwaith y Pwyllgor Craffu er mwyn bodloni ei hun bod y risgiau mwyaf arwyddocaol i'r Cyngor yn cael eu hadolygu.

### Cynigion newydd

- adolygu amcanion cyfredol ar gyfer gwella i sicrhau eu bod yn ddilys, yn fforddiadwy ac yn cydymffurfio â'r blaenoriaethau a nodwyd yng nghyllideb 2011-12;
- ymgysylltu ymhellach â dinasyddion a rhanddeiliaid wrth benderfynu amcanion gwella ar gyfer y dyfodol;
- ystyried gwybodaeth sydd eisoes ar gael ynglŷn â phob amcan gwella er mwyn deall y sefyllfa bresennol a nodi unrhyw fylchau sydd angen eu llenwi; ac
- ar gyfer yr holl amcanion gwella, dylid dewis dulliau mesur clir a fydd yn dangos y canlyniadau i ddinasyddion lleol.

# Atodiad 1

## Gwybodaeth am Archwilydd Cyffredinol Cymru a'r adroddiad hwn

**Yr Archwilydd Cyffredinol**

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn annibynnol ar y llywodraeth ac mae'n cael ei benodi gan Ei Mawrhydi Y Frenhines. Mae'n arwain Swyddfa Archwilio Cymru ac mae'n atebol i Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y Cynulliad Cenedlaethol am waith Swyddfa Archwilio Cymru.

Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn helpu'r Archwilydd Cyffredinol drwy archwilio amryw o agweddau ar sut mae cyrff cyhoeddus yng Nghymru yn gweithio. Crëwyd Swyddfa Archwilio Cymru yn 2005 drwy uno'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol yng Nghymru a'r Comisiwn Archwilio yng Nghymru.

Yr Archwilydd Cyffredinol yw archwilydd allanol Llywodraeth y Cynulliad a'i chyrff cyhoeddus noddedig a chysylltiedig; Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru a chyrff y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG) yng Nghymru. Mae hefyd yn penodi archwilwyr allanol cyrff llywodraeth leol yng Nghymru, gan gynnwys awdurdodau unedol, yr heddlu, awdurdodau prawf, awdurdodau tân ac achub, parciau cenedlaethol a chynghorau cymuned.

Yn ogystal ag ymgymryd ag archwilio ariannol, rôl yr Archwilydd Cyffredinol yw edrych ar sut mae cyrff cyhoeddus yn rheoli ac yn gwario arian y cyhoedd, gan gynnwys sicrhau gwerth am arian wrth ddarparu gwasanaethau cyhoeddus. Mae'r ddeddf a greodd Swyddfa Archwilio Cymru hefyd wedi ymestyn pwerau'r Archwilydd Cyffredinol i ddilyn y 'bunt gyhoeddus' ble bynnag mae'n mynd.

**Yr adroddiad hwn**

Cyflwynodd Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur) gyfrifoldebau newydd i'r Archwilydd Cyffredinol, gan gynnwys cyfrifoldeb i gyhoeddi ei asesiad o drefniadau pob cyngor/awdurdod i sicrhau gwelliant parhaus.

Mae'r adroddiad hwn wedi'i lunio gan Archwilydd Cyffredinol Cymru i gyflawni ei ddyletswyddau o dan adran 24 o'r Mesur. Mae'r adroddiad hefyd yn cyflawni dyletswyddau o dan adran 19, sef; cyhoeddi adroddiad sy'n ardystio ei fod wedi cynnal archwiliad o dan adran 17 ac asesiad gwella o dan adran 18.

Mae gan awdurdodau gwella ddyletswydd gyffredinol i 'wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus wrth arfer [eu] swyddogaethau'. Diffinnir awdurdodau gwella fel awdurdodau lleol, parciau cenedlaethol ac awdurdodau tân ac achub.

Yr Asesiad Gwella blynyddol yw'r prif ddarn o waith ar gyfer Swyddfa Archwilio Cymru, i alluogi'r Archwilydd Cyffredinol i gyflawni ei ddyletswyddau.[1]

1 Cynhelir yr asesiad hwn ar gyfer pob awdurdod gwella, o dan adran 18 o'r Mesur. Bydd yn penderfynu a yw pob awdurdod yn debygol o gydymffurfio â gofynion Rhan 1 o'r Mesur. Bydd Swyddfa Archwilio Cymru hefyd yn cynnal archwiliad o wybodaeth am welliannau a chynllunio ar gyfer gwella, fel sy'n ofynnol o dan adran 17 o'r Mesur, er mwyn penderfynu a yw'r awdurdod wedi cyflawni ei ddyletswyddau o dan adran 15(1) i (7).

Bydd hyn yn cael ei lywio gan:

- Asesiad Corfforaethol – asesiad sy'n edrych i'r dyfodol i weld pa mor debygol yw awdurdod o gydymffurfio â'i ddyletswydd i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus; ac
- Asesiad o Berfformiad – asesiad ôl-weithredol i weld a yw awdurdod wedi cyflawni'r gwelliannau a gynlluniwyd ganddo er mwyn llywio barn ar sut y llwyddodd yr awdurdod i wella.

Cyhoeddir canlyniad(au) yr asesiadau hyn gan yr Archwilydd Cyffredinol fel Adroddiad(au) Archwilio ac Asesu, o dan adran 19 o'r Mesur. Wrth gyhoeddi'r adroddiad hwn o dan adran 19, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru yn ardystio ein bod wedi cynnal archwiliad adran 17 ac asesiad gwella adran 18.

Dan rai amgylchiadau gall yr Archwilydd Cyffredinol hefyd gynnal Arolygiadau Arbennig (o dan adran 21), a bydd yn cyflwyno adroddiad i'r awdurdodau a'r Gweinidogion perthnasol, gan ei gyhoeddi o bosibl (o dan adran 22).

Bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn crynhoi Adroddiadau Archwilio ac Asesu yn yr Adroddiad Gwella Blynyddol hwn a gyhoeddir (o dan adran 24). Bydd hwn hefyd yn crynhoi unrhyw adroddiadau o Arolygiadau Arbennig.

Un o weithgareddau atodol pwysig Swyddfa Archwilio Cymru yw cydgysylltu gwaith asesu a gwaith rheoliadol (sy'n ofynnol o dan adran 23) sy'n ystyried rhaglen waith gyffredinol pob rheoleiddiwr perthnasol mewn awdurdod gwella. Bydd yr Archwilydd Cyffredinol hefyd yn ystyried gwybodaeth a rennir gan reoleiddwyr perthnasol (o dan adran 33) yn ei asesiadau a bydd yr adroddiad hwn yn crynhoi unrhyw waith a wnaed ganddynt.

Bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn nodi'r ffi ar gyfer gwaith archwilio perfformiad a wnaed ganddo i gyflawni ei ddyletswyddau o dan y Mesur ym mhob awdurdod lleol mewn Rhaglen Reoleiddio y cytunir arni bob blwyddyn â'r awdurdod. Ar hyn o bryd, disgwylir i'r ffi ar gyfer mis Tachwedd 2009 hyd at fis Mawrth 2011 fod yn unol â'r swm a nodir yn y Rhaglen Reoleiddio.

# Atodiad 2

## Gwybodaeth ddefnyddiol am Ben-y-bont ar Ogwr a Chyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr

Yn 2008-09 gwariodd y Cyngor £287 miliwn, sef £2,130 fesul trigolyn.
Gwariodd £27 miliwn ar eitemau cyfalaf hefyd.
Ffynhonnell: Gwefan Cynulliad Cenedlaethol Cymru (cyfeiriad StatsCymru 002631) Cyfeirnod Swyddfa Archwilio Cymru: (100)

£1,184.12 y flwyddyn oedd y dreth gyngor band D gyfartalog ym Mhen-y-bont ar Ogwr yn 2009-10. Bydd yn codi 4.77 y cant i £1,240.56 y flwyddyn yn 2010-11. Mae wyth deg y cant o dai Pen-y-bont ar Ogwr yn perthyn i fandiau treth gyngor A i D.
Ffynhonnell: StatsCymru Cyfeirnod Swyddfa Archwilio Cymru: (75)

Aelodau Seneddol Pen-y-bont ar Ogwr yw:

Huw Irranca-Davies, Ogwr, Llafur

Madeleine Moon, Pen-y-bont ar Ogwr, Llafur

Ffynhonnell: Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau Cyfeirnod Swyddfa Archwilio Cymru: (234)

Aelodau Cynulliad Cenedlaethol Cymru Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yw:

Carwyn Jones, Pen-y-bont ar Ogwr, Plaid Lafur

Janice Gregory, Ogwr, Plaid Lafur

Aelodau Cynulliad Rhanbarthol Gorllewin De Cymru yw:

Alun Cairns, Plaid Geidwadol Cymru

Peter Black, Democratiaid Rhyddfrydol Cymru

Dai Lloyd, Plaid Cymru; Bethan Jenkins, Plaid Cymru

Ffynhonnell: Gwefan Cynulliad Cenedlaethol Cymru Cyfeirnod Swyddfa Archwilio Cymru: (13)

Mae yna 54 o gynghorwyr ar gyfer Pen-y-bont ar Ogwr sy'n cynrychioli'r gymuned ac yn gwneud penderfyniadau ynghylch blaenoriaethau a'r defnydd o adnoddau. Mae'r Cyngor yn cynnwys aelodau o'r grwpiau gwleidyddol canlynol:

27 Llafur

9 Annibynnol

6 Ceidwadwyr

6 Democratiaid Rhyddfrydol

3 Democratiaid Annibynnol

2 Annibynnol

1 Plaid Cymru

Arweinydd y Cyngor yw'r Cyng. Mel Nott; Aelodau eraill y Cabinet a'u portffolios yw:

Cyng. David Sage – Dirprwy Arweinydd

Cyng. Alana Davies – Plant a Phobl Ifanc

Cyng. Huw David – Adnoddau

Cyng. Lyn Morgan – Lles

Cyng. John Spanswick – Cymunedau

Ffynhonnell: Gwefan Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr Cyfeirnod Swyddfa Archwilio Cymru: (54)

Prif Weithredwr y Cyngor yw Dr Jo Farrar ac mae ei thîm rheoli yn cynnwys y:

Prif Weithredwyr Cynorthwyol: Andrew Jolly (Gwasanaethau Cyfreithiol a Rheoleiddiol) a David MacGregor (Datblygiad Corfforaethol a Phartneriaethau)

Cyfarwyddwr Corfforaethol, Lles: Abigail Harris

Cyfarwyddwr Corfforaethol, Plant: Hilary Anthony

Cyfarwyddwr Corfforaethol, Cymunedau: Louise Fradd

a Phennaeth Eiddo a Chyllid: Allan Phillips

Mae Llywodraeth y Cynulliad yn ei gwneud hi'n ofynnol i'r Cyngor wneud cynlluniau i wella ei swyddogaethau a'i wasanaethau. Bob blwyddyn mae'n rhaid iddo gyhoeddi'r cynlluniau hyn ynghyd ag 'amcanion gwella' penodol sy'n nodi'r pethau allweddol y mae'r Cyngor yn bwriadu eu gwneud er mwyn gwella. Mae'n rhaid i'r Cyngor wneud hyn mor fuan â phosibl ar ôl 1 Ebrill bob blwyddyn.

Am ragor o wybodaeth gweler gwefan y Cyngor ei hun, www.bridgend.gov.uk neu cysylltwch â'r Cyngor yn y Swyddfeydd Dinesig, Stryd yr Angel, Pen-y-bont ar Ogwr, CF31 4WB.

# Atodiad 3

## Asesiad Corfforaethol yr Archwilydd Cyffredinol

Nodir isod prif gasgliadau Asesiad Corfforaethol yr Archwilydd Cyffredinol a gyflwynwyd i'r Cyngor ym mis Mehefin 2010.

Mae'r Cyngor wedi cryfhau ei drefniadau corfforaethol ac wedi cyflawni nifer o welliannau ond mae meysydd sydd angen eu datblygu ymhellach o hyd er mwyn sicrhau gwelliannau yn y dyfodol.

**Sut mae'r Cyngor wedi mynd ati i sicrhau gwelliant dros amser**

Er bod y Cyngor wedi mynd i'r afael â nifer o wendidau yn ei drefniadau corfforaethol, bydd ffordd gadarn o gynllunio busnes yn hanfodol er mwyn sicrhau gwelliannau yn ydyfodol.

Yn y gorffennol, roedd camau gweithredu megis trosglwyddo stoc yn arloesol ac yn edrych i'r dyfodol, ond mae gwendidau o ran trefniadau corfforaethol wedi cyfrannu at ddirywiad hirdymor mewn meysydd megis gwasanaethau plant.

Mae arweinyddiaeth wleidyddol a rheoli wedi cydweithio'n adeiladol i fynd i'r afael â rhai problemau hirsefydlog ac i gyflawni gwelliannau.

Mae system cynllunio busnes sy'n edrych i'r dyfodol wrthi'n cael ei datblygu.

**Dadansoddi trefniadau'r Cyngor i'w helpu i wella**

Mae arweinyddiaeth effeithiol, gweithio mewn partneriaeth, prosesau busnes a rhai agweddau ar reoli pobl yn cefnogi gwelliant ond gallai'r trefniadau rheoli perfformiad a chynllunio'r gweithlu roi'r gwelliannau ar gyfer y dyfodol yn y fantol.

Mae arweinyddiaeth a llywodraethu effeithiol wedi arwain at bolisïau a strategaethau lefel uchaf cydlynol.

Mae datblygiadau o ran ymgysylltu â dinasyddion, agweddau ar reoli pobl a rhai prosesau busnes yn cefnogi gwelliant yn gadarnhaol.

Mae gan y Cyngor ddiwylliant cadarnhaol o weithio mewn partneriaeth er budd y gymuned ac er ei fod wedi dechrau ystyried lle y gallai partneriaethau arbed arian, nid oes ganddo system i werthuso'r canlyniadau.

Mae angen i'r Cyngor gryfhau cynllunio busnes, rheoli perfformiad a chynllunio'r gweithlu ymhellach er mwyn sicrhau gwelliannau yn y dyfodol.

I weld yr adroddiad llawn ewch i'n gwefan yn **www.wao.gov.uk** neu cysylltwch â ni yn y cyfeiriad ar y clawr mewnol.

# Atodiad 4

## Llythyr Archwilio Blynyddol yr Archwilydd Penodedig at Aelodau Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr wedi cydymffurfio â'r gofynion adrodd ar wella perfformiad ac ariannol ond mae'n wynebu pwysau ariannol sylweddol yn y dyfodol agos.
Cyfrifoldeb y Cyngor yw:

- rhoi systemau rheoli mewnol ar waith i sicrhau rheoleidd-dra a chyfreithlondeb trafodion a sicrhau bod ei asedau yn ddiogel;
- cadw cofnodion cyfrifyddu priodol;
- paratoi Datganiad o Gyfrifon yn unol â'r gofynion perthnasol;
- sefydlu ac adolygu trefniadau priodol i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wrth ddefnyddio adnoddau; a
- chyhoeddi ei Gynllun Gwella erbyn 31 Hydref.

Mae'r Cod Ymarfer Archwilio a gyhoeddir gan yr Archwilydd Cyffredinol (y Cod) yn ei gwneud hi'n ofynnol i ni:

- ddarparu barn archwilio ar y datganiadau cyfrifyddu;
- adolygu trefniadau'r Cyngor i sicrhau darbodusrwydd , effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wrth ddefnyddio adnoddau;
- ystyried a yw'r Cynllun Gwella wedi'i baratoi a'i gyhoeddi yn unol â gofynion statudol; a
- chyhoeddi tystysgrif yn cadarnhau ein bod wedi cwblhau'r gwaith o archwilio'r cyfrifon.

Ar 24 Medi 2010 aethom ati i gyhoeddi barn archwilio ddiamod ar y datganiadau cyfrifyddu, yn cadarnhau eu bod yn adlewyrchiad cywir a theg o drafodion ariannol y Cyngor. Mae ein hadroddiad wedi'i gynnwys yn y Datganiad o Gyfrifon.

Aethom ati i gyflwyno canlyniad ein harchwiliad o'r cyfrifon i Bwyllgor Archwilio'r Cyngor ar 16 Medi 2010. Mae'r adroddiad ar gael ar wefan y Cyngor fel rhan o ddogfennau cyfarfod y pwyllgor. Nodwyd y materion canlynol yn ystod yr archwiliad o'r cyfrifon:

- Mae gan swyddogion agwedd gadarnhaol tuag at baratoi cyfrifon cywir a chynhwysfawr sy'n esbonio perfformiad ariannol yn dda. Mae'r Cyngor wedi symleiddio a chryfhau ei broses adrodd ariannol diwedd blwyddyn. Mae modd gwella hyn ymhellach drwy fabwysiadu gweithdrefnau cyfrifyddu cyfalaf mwy effeithlon. Mae yna gyfleoedd i wella'r prosesau cyfrifyddu canol blwyddyn hefyd.

- Gweithredwyd gofynion cyfrifyddu diwygiedig cynllun Menter Cyllid Preifat y Cyngor yn gywir ac mae cynnydd sylweddol yn cael ei wneud wrth baratoi i weithredu'r Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol yn 2010-11.
- Hyd at 31 Mawrth 2010 roedd y Cyngor wedi darparu'n briodol yn ei gyfrifon ar gyfer hawliadau cyflog cyfartal a gwerthuso swyddi.
- Paratowyd ffurflen Cyfrifon y Llywodraeth Gyfan yn effeithiol ac yn unol ag amserlen y Cynulliad.

Mae ein hadolygiad o drefniadau'r Cyngor i sicrhau darbodusrwydd , effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wedi bod yn seiliedig ar archwilio'r cyfrifon a'r gwaith a gwblhawyd fel rhan o'r Mesur. Bydd prif ganfyddiadau'r gwaith olaf yn cael eu nodi yn yr Adroddiad Gwella Blynyddol. Yn ogystal, rydym yn tynnu'ch sylw at y materion canlynol:

- Mae trefniadau effeithiol i reoli'r gyllideb ar waith ac mae cynlluniau ariannol tymor canolig yn datblygu'n dda, ond mae'r Cyngor yn wynebu pwysau ariannol sylweddol yn y dyfodol. Mae'r Adroddiad Gwella Blynyddol yn cyfeirio ymhellach at hyn.
- Mae angen i'r Cyngor gwblhau ei brosiect gwerthuso swyddi.

Mae Cynllun Gwella 2010-11 y Cyngor yn cydymffurfio â'r gofynion statudol ac yn rhoi golwg gytbwys o'i berfformiad yn 2009-10. Mae manylion y materion arwyddocaol wedi'u hamlinellu isod:

- Yn y dyfodol, dylai'r Cyngor ystyried darparu esboniad manylach o'i berfformiad sy'n cael ei fesur gan y dangosyddion perfformiad statudol. Mae hyn yn debygol o gynnwys esboniad pellach o sut mae'r Cyngor yn bwriadu gwella'r meysydd lle mae'n tangyflawni.

Cyhoeddwyd tystysgrif gennym yn cadarnhau bod y gwaith o archwilio'r cyfrifon wedi'i gwblhau ar 24 Medi 2010, adeg cyhoeddi'r farn archwilio.

Ar hyn o bryd disgwylir y bydd y ffi archwilio ariannol ar gyfer 2009-10 yr un fath â'r ffi a nodir yn y Strategaeth Archwilio Ariannol.

KPMG LLP
Archwilydd Penodedig
Tachwedd 2010

# Atodiad 5

## Amcanion gwella Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr

Mae'r Cyngor wedi cyhoeddi ei amcanion gwella yn ei Gynllun Corfforaethol 2010-2013 sydd ar gael ar wefan y Cyngor yn www.bridgend.gov.uk. Yr amcanion yw:

- creu cymunedau diogel a chynhwysol;
- datblygu datrysiadau tai cynaliadwy ar gyfer pobl ddigartref neu'r rheiny sydd arnynt angen tai fforddiadwy, a gwella amodau tai'r sector preifat;
- rhoi cymorth i oedolion agored i niwed allu byw'n annibynnol yn eu cymunedau, gan hybu dewis, grymuso, urddas a pharch;
- darparu gwasanaethau sy'n diwallu gwahanol anghenion plant a phobl ifanc sy'n byw yn y fwrdeistref;
- datblygu cymunedau dysgu sy'n helpu plant a phobl ifanc i gyflawni gwell deilliannau;
- sicrhau mwy o gynhwysiant addysgol, fel bod yr holl bobl ifanc, gan gynnwys rhai difreintiedig ac agored i niwed a'r rheiny a chanddynt anghenion dysgu ychwanegol, yn elwa o ymyrraeth gynharach a chymorth lleol mwy effeithiol;
- gwella lles corfforol ac emosiynol trwy hybu ffyrdd egnïol o fyw, cyfranogiad a dysgu;
- rhoi cymorth i'n cymunedau difreintiedig trwy hybu twf economaidd a chynaliadwyedd;
- parhau i hyrwyddo Pen-y-bont ar Ogwr a'i mannau gwyrdd fel lle gwych i fyw ynddo ac i'w fwynhau;
- gwella'r ffordd rydym yn gweithio i sicrhau defnydd effeithiol ac effeithlon o'n hasedau ariannol, technolegol, ffisegol a dynol; a
- sicrhau bod yr Awdurdod yn cyflawni ei ddyletswyddau moesol a statudol o ran deddfwriaeth cydraddoldeb a hawliau dynol.

# Atodiad 6

## Cyfeiriadau

Daw'r holl ddata y cyfeirir ato yn yr adroddiad o'r ffynonellau canlynol:

- Llywodraeth Cynulliad Cymru, StatsCymru
- Llywodraeth Cynulliad Cymru, ystadegau cryno ardaloedd lleol
- Gwefannau a chynlluniau gwella'r awdurdod gwella ei hun
- The Wales Yearbook
- Y Swyddfa Gartref
- Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau
- Y Swyddfa Ystadegau Gwladol